**PWYLLGOR CYSAG SIR Y FFLINT**
**26 CHWEFROR 2020**

Cofnodion cyfarfod CYSAG Sir y Fflint ar gyfer tymor y gwanwyn a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ar 26 Chwefror 2020.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**AELODAU ETHOLEDIG:**
Y Cyng. Chris Bithell (CB) (Cadeirydd); Y Cyng. Dave Mackie (DM) a'r Cyng. Ian Roberts (IR)

**CYNRYCHIOLWYR AWDURDOD LLEOL:**
Vicky Barlow – Uwch Reolwr Systemau Gwella Ysgolion (Addysg a Ieuenctid) (VB)

**ENWADAU CREFYDDOL:**
Rosalind Williams (RW) a John Morgan (JM)

**CYNRYCHIOLWYR ATHRAWON**
Catherine McCormack (CM)

**AELOD CYFETHOLEDIG**
Amira Mattar (AM)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Joanna Hayes – Arweinydd Newid Busnes a Thîm Cymorth, Clerc;

**1. PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi CM fel Is-Gadeirydd

**2. PENODI CADEIRYDD**

Penodi CB fel Cadeirydd

**CROESO A CHYFLWYNIADAU**

Cafwyd diweddariad gan VP ar aelodaeth:
Cyflwynwyd AM fel aelod cyfetholedig, CM fel Prif Gynrychiolydd Uwchradd a JM fel cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig.

Gofynnwyd am enwebiadau gan Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd ac mae'r Parch Simon Percy o Ysgol Gynradd Golftyn wedi cael ei enwebu fel cynrychiolydd ysgolion cynradd.

Mae gwahoddiad wedi cael ei ymestyn hefyd i Wendy White yn ei chymhwysedd fel Cyfarwyddwr Addysg ar gyfer Esgobaeth Gatholig Wrecsam yn dilyn ymddeoliad cyn ddeiliad y swydd.

Cynghorodd RW fod Sue Jones yn rhoi'r gorau iddi 18 mis yn ôl ac ni ddylai fod ar y rhestr erbyn hyn. Yna gwahoddwyd RW i chwilio am enwebiad newydd ar ran CYSAG.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Janet Axworthy, Paul Cunningham a Gareth Wyn Jones

## 4. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim

## 5. COFNODION

Cytunwyd ar y cofnodion o gyfarfod 12 Mehefin 2019 fel cofnod cywir o'r cyfarfod blaenorol.

Materion sy'n codi:

- Angen cynrychiolydd AG uwchradd. Bydd VB yn mynd â hyn i gyfarfod Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd am enwebiadau
- Nodyn atgoffa i gael ei anfon at yr holl aelodau etholedig sydd heb fynychu ers sbel.

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 6. DIWEDDARIAD AR ADRODDIADAU ARCHWILIAD ESTYN

Cafwyd crynodeb gan VB ar yr adroddiadau archwiliad o dymor hydref 2019. Bydd yn parhau i roi adborth i Estyn ynglŷn â'r diffyg enghreifftiau da wedi'u nodi mewn adroddiadau ynglŷn ag Addysg Grefyddol.

Gwahoddiad i Ysgol y Foel i'r cyfarfod nesaf ynghylch yr adborth cadarnhaol a gafodd yr ysgol yn ei archwiliad Estyn diweddaraf ar gyfer Addysg Grefyddol.

Ysgrifennir at yr ysgolion yn eu llongyfarch ar y sylwadau cadarnhaol yn eu hadroddiadau archwilio mewn perthynas ag Addysg Grefyddol ac Addoli Ar Y Cyd.

## 7. DIWEDDARIAD AR LAFAR AR GANLYNIAD YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR ADDYSG GREFYDDOL

Cafwyd diweddariad ar lafar gan VB. Mae'r teitl newydd ar gyfer Addysg Grefyddol (Crefydd, Gwerthoedd a Moesau) yn achosi problemau ac mae dal

posibilrwydd i drafod hynny. Rydym ar hyn o bryd yn disgwyl am fframwaith ddrafft ar gyfer Addysg Grefyddol.

Mae Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru wedi gofyn am Gyfarfod Arbennig i gael ei gynnal ym mhob awdurdod i roi adborth i Lywodraeth Cymru. Mae CYSAG Wrecsam yn cynnal eu cyfarfod ar 26/03/20 ac wedi ymestyn cynnig agored i bobl ymuno ar gyfer trafodaeth ar y cyd. VB i ddosbarthu manylion i weld os gall rhywun fynychu. VB i ysgrifennu at CYSAG Wrecsam yn diolch iddyn nhw am y gwahoddiad.

## 8. CYMDEITHAS CYNGHORAU YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL CYMRU

Cafwyd diweddariad ar lafar gan VB ar y prif bwyntiau o Gyfarfod Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru diwethaf:

- Adnoddau ar gael i'r holl CYSAGau
- Y gobaith yw bydd y CYSAGau yn mabwysiadu'r Fframwaith AG ar y cyd â'r cwricwlwm newydd er nad oes raid iddyn nhw a gallan nhw ysgrifennu cwricwlwm/maes llafur eu hunain. Byddai hyn fodd bynnag yn golygu cyfanswm sylweddol o amser ac adnoddau i'w gyflawni.
- Mae Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru wedi ysgrifennu at Brif Swyddogion Addysg ynglŷn â diffyg cydymffurfiad â gofynion Addysg Grefyddol. Mae hyn wedi cael ei godi gyda phenaethiaid uwchradd mewn cyfarfod diweddar o'r Fforwm Penaethiaid. VB i ddod a gwybodaeth bellach i'r cyfarfod nesaf ynglŷn â'r sefyllfa yn Ysgolion Sir y Fflint ynghylch cydymffurfiad â'r gofynion hyn.

VB i fynychu'r cyfarfod Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru nesaf ar 17 Mawrth 2020 ym Merthyr Tudful gan roi gwybod i'r grŵp o ddyddiad a lleoliad ar gyfer cyfarfod tymor yr haf yn syth wedyn fel bod cyn cymaint o gynrychiolwyr ag sy'n bosib yn gallu mynychu.

Mae Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru wedi gofyn am wirfoddolwyr i'w Pwyllgor Gwaith ac am Is-Gadeirydd. Cynigodd VB ei henw ymlaen ac fe gymeradwywyd hynny gan y cyfarfod.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL I CYSAG 2018-19

Cynghorodd VB y cyfarfod ei bod wedi drafftio cymaint ag y gallai hyd yma (dosbarthwyd copi). Gofynnir am adborth erbyn dydd Gwener, 6 Mawrth 2020 ac mi fydd yna'n e-bostio'r fersiwn terfynol. VB i lunio drafft o'r llythyr gan y Cadeirydd i gael ei gynnwys. Bydd yn ei anfon at y Cadeirydd yfory i'w gadarnhau.

**10. GOHEBIAETH**

Syniadau AG a dderbyniwyd gan Rheinallt Thomas ar ran REMW. Ffeiliau PDF o Syniadau AG ar gyfer 3 tymor y flwyddyn academaidd hon yn Gymraeg a Saesneg. Copïau wedi'u hanfon at ysgolion. Copïau yw darparu i CYSAG trwy e-bost.

**11. CYFARFODYDD I DDOD**

Dydd Mercher 10 Mehefin 2020 4pm Ystafell Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 4 pm a daeth i ben am 4.30 pm)

**..............................**
**Y Cadeirydd**